Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

O F F E R Y N N A U  S T A T U D O L
C Y M R U

# 2018 Rhif 2 (Cy. 2)

# TRETH TRAFODIADAU TIR, CYMRU

## Rheoliadau Treth Trafodiadau Tir (Gweinyddu) (Cymru) 2018

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn darparu ar gyfer materion amrywiol sy'n ymwneud â gweinyddu'r dreth trafodiadau tir.

Mae Rhan 2 o'r Rheoliadau hyn yn nodi'r amgylchiadau pan fo'n rhaid i Awdurdod Cyllid Cymru ("ACC") ddyroddi tystysgrif yn sgil cael ffurflen dreth trafodiadau tir a materion eraill sy'n ymwneud â'r dystysgrif.

Mae adran 65(1) o Ddeddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017 ("y Ddeddf TTT") yn gwahardd Prif Gofrestrydd Tir Cofrestrfa Tir Ei Mawrhydi rhag diwygio'r gofrestr teitlau mewn cysylltiad â thrafodiad tir hysbysadwy hyd nes y bydd tystysgrif o'r fath wedi ei chyflwyno.

Mae rheoliad 3 yn gwneud darpariaeth ynghylch yr amodau sydd i'w bodloni cyn i ACC ddyroddi tystysgrif.

Mae rheoliad 4 yn rhagnodi ffurf a chynnwys tystysgrif a ddyroddir gan ACC.

Mae rheoliad 5 yn gwneud darpariaeth ynghylch dyroddi tystysgrif ACC ddyblyg mewn achosion pan fo'r dystysgrif wreiddiol wedi ei cholli neu ei dinistrio.

Mae rheoliad 6 yn gwneud darpariaeth ynghylch dyroddi tystysgrifau ACC lluosog pan ddychwelir ffurflen dreth trafodiadau tir sy'n ymwneud â mwy nag un trafodiad.

Mae Rhan 3 o'r Rheoliadau hyn yn rhagnodi'r dystiolaeth y mae'n rhaid ei chyflwyno i ACC pan gaiff rhyddhad ei hawlio o dan Atodlen 11 i'r Ddeddf TTT yn achos trafodiadau tir penodol sy'n gysylltiedig â bondiau buddsoddi cyllid arall.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

Mae rheoliad 7 yn rhagnodi'r dystiolaeth y mae'n rhaid i'r dyroddwr bond ei darparu i ACC at ddiben paragraff 9(1) o Atodlen 11 i'r Ddeddf TTT. Mae'r dystiolaeth a ragnodir gan y rheoliad hwn i ddangos bod pridiant tir cyfreithiol o blaid ACC wedi ei gofnodi yn y gofrestr teitlau a gedwir gan y Prif Gofrestrydd Tir.

Mae rheoliad 8 yn rhagnodi'r dystiolaeth y mae'n rhaid i'r dyroddwr bond ei darparu i ACC at ddiben paragraff 16 o Atodlen 11 i'r Ddeddf TTT. Mae'r dystiolaeth a ragnodir gan y rheoliad hwn i ddangos bod pob un o amodau 1 i 3 a 5 i 7 wedi eu bodloni er mwyn gollwng y pridiant tir cyfreithiol a gofrestrwyd yn unol â pharagraff 9(1) o'r Atodlen honno.

Mae rheoliad 9 yn rhagnodi'r dystiolaeth y mae'n rhaid i'r dyroddwr bond ei darparu i ACC at ddiben paragraff 18(4)(a) o Atodlen 11 i'r Ddeddf TTT, pan fo'r tir amnewid yng Nghymru. Mae'r dystiolaeth a ragnodir gan y rheoliad hwn i ddangos bod y tir gwreiddiol wedi ei drosglwyddo i'r perchennog gwreiddiol.

Mae rheoliad 10 yn rhagnodi'r dystiolaeth y mae'n rhaid i'r dyroddwr bond ei darparu i ACC at ddibenion paragraff 18(5) o Atodlen 11 i'r Ddeddf TTT. Mae'r dystiolaeth a ragnodir gan y rheoliad hwn i ddangos bod y tir gwreiddiol wedi ei drosglwyddo i'r perchennog gwreiddiol, a bod amodau 1 i 3 wedi eu bodloni mewn perthynas â'r tir amnewid, nad yw yng Nghymru.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2018 Rhif 2 (Cy. 2)

# TRETH TRAFODIADAU TIR, CYMRU

## Rheoliadau Treth Trafodiadau Tir (Gweinyddu) (Cymru) 2018

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *4 Ionawr 2018* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru* | *8 Ionawr 2018* |
| *Yn dod i rym* | *1 Ebrill 2018* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 65(5) a 78(1) o Ddeddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017(**1**), a pharagraffau 2, 9(1), 16 a 18(4)(a) a (5) o Atodlen 11 iddi.

## RHAN 1

### Cyffredinol

**Enwi a chychwyn**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Treth Trafodiadau Tir (Gweinyddu) (Cymru) 2018.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 1 Ebrill 2018.

**Dehongli**

**2.** Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "yr Atodlen" ("*the Schedule*") yw Atodlen 11 i'r Ddeddf TTT;

ystyr "CUT" ("*UTRN*") yw'r cyfeirnod unigryw trafodiad a ddyrennir i drafodiad tir gan ACC at ddibenion treth trafodiadau tir;

(**1**) 2017 dccc 1.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

"dyroddwr bond" ("*bond-issuer*") yw "B" fel y darperir ar ei gyfer gan baragraff 6 o'r Atodlen;

ystyr "y Ddeddf TTT" ("*the LTT Act*") yw Deddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017; a

"perchennog gwreiddiol" ("*original owner*") yw "A" fel y darperir ar ei gyfer gan baragraff 6 o'r Atodlen.

## RHAN 2

## Tystysgrifau ACC

### Amodau sydd i'w bodloni cyn y dyroddir tystysgrif ACC

**3.**—(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (2), rhaid i dystysgrif ACC gael ei dyroddi pan fo ACC wedi ei fodloni—

(a) bod ffurflen dreth wedi ei dychwelyd mewn cysylltiad â thrafodiad tir hysbysadwy; a

(b) bod y ffurflen dreth (ynghyd ag unrhyw ffurflenni treth eraill sy'n ofynnol)—

(i) wedi ei chwblhau; a

(ii) yn cynnwys y datganiad sy'n ofynnol gan adran 53 o'r Ddeddf TTT.

(2) Pan fo ffurflen dreth yn ymwneud â thrafodiad trethadwy, rhaid i ACC fod wedi ei fodloni hefyd—

(a) bod y ffurflen dreth yn cynnwys hunanasesiad fel sy'n ofynnol gan adran 44(2)(b) o'r Ddeddf TTT; a

(b) ar sail yr wybodaeth a gynhwysir yn y ffurflen dreth, yr ymddengys bod yr hunanasesiad yn gywir.

### Ffurf a chynnwys tystysgrifau ACC

**4.** Rhaid i dystysgrif ACC fod yn ysgrifenedig a rhaid iddi gynnwys yr wybodaeth a ganlyn—

(a) cyfeiriad y tir y mae'r trafodiad yn ymwneud ag ef;

(b) unrhyw rif teitl ar gyfer y tir yn y gofrestr teitlau a gedwir gan y Prif Gofrestrydd Tir sydd wedi ei ddarparu ar y ffurflen dreth;

(c) unrhyw gyfeirnod unigryw eiddo y Rhestr Gyfeiriadau Genedlaethol sydd wedi ei ddarparu ar y ffurflen dreth;

(d) disgrifiad o'r trafodiad;

(e) y dyddiad y mae'r trafodiad yn cael effaith; ac

(f) enw'r prynwr a'r gwerthwr.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

**Tystysgrifau ACC dyblyg**

**5.** Os yw ACC wedi ei fodloni bod tystysgrif ACC wedi ei cholli neu ei dinistrio, caniateir dyroddi tystysgrif ACC ddyblyg.

**Tystysgrifau ACC lluosog**

**6.**—(1) Pan ddychwelir ffurflen dreth sy'n ymwneud â mwy nag un trafodiad, caiff y prynwr wneud cais i ACC ddyroddi tystysgrifau ACC ar wahân mewn cysylltiad â phob un o'r trafodiadau y mae'r ffurflen dreth yn ymwneud â hwy.

(2) Pan fo'r prynwr yn gwneud cais o dan baragraff (1), rhaid i ACC ddarparu tystysgrifau ar wahân mewn cysylltiad â phob un o'r trafodiadau hynny.

## RHAN 3

## Bondiau Buddsoddi Cyllid Arall – Tystiolaeth Ragnodedig

**Tystiolaeth ragnodedig at ddiben paragraff 9(1) o'r Atodlen**

**7.** Y dystiolaeth ragnodedig at ddiben paragraff 9(1) o'r Atodlen (amod 4 ar gyfer gweithredu rhyddhadau) yw—

(a) unrhyw ddogfen a ddarparwyd gan y Prif Gofrestrydd Tir sy'n cadarnhau bod pridiant tir cyfreithiol wedi ei gofnodi yn y gofrestr teitlau o blaid ACC; a

(b) y CUT ar gyfer y ffurflen dreth yr hawliwyd rhyddhad rhag treth arni mewn perthynas â'r trafodiad pan drosglwyddwyd tir o'r perchennog gwreiddiol i'r dyroddwr bond.

**Tystiolaeth ragnodedig at ddiben paragraff 16 o'r Atodlen**

**8.** Y dystiolaeth ragnodedig at ddiben paragraff 16 o'r Atodlen (gollwng pridiant tir pan fodlonir amodau ar gyfer rhyddhad) yw—

(a) datganiad gan y dyroddwr bond, neu berson a awdurdodir i weithredu ar ran y dyroddwr bond, fod pob un o amodau 1 i 3 a 5 i 7 wedi eu bodloni;

(b) y CUT ar gyfer y ffurflen dreth yr hawliwyd rhyddhad rhag treth arni mewn perthynas â'r trafodiad pan drosglwyddwyd tir o'r perchennog gwreiddiol i'r dyroddwr bond;

(c) y CUT ar gyfer y ffurflen dreth yr hawliwyd rhyddhad rhag treth arni mewn perthynas â'r trafodiad pan drosglwyddwyd tir o'r dyroddwr bond i'r perchennog gwreiddiol; a

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(d) unrhyw ddogfen fel y'i darparwyd gan y Prif Gofrestrydd Tir sy'n cadarnhau bod y tir wedi ei gofrestru yn enw'r perchennog gwreiddiol.

**Tystiolaeth ragnodedig at ddiben paragraff 18(4)(a) o'r Atodlen**

**9.** Y dystiolaeth ragnodedig at ddiben paragraff 18(4)(a) o'r Atodlen (tir amnewid sydd yng Nghymru) yw—

(a) y CUT ar gyfer y ffurflen dreth yr hawliwyd rhyddhad rhag treth arni mewn perthynas â'r trafodiad pan drosglwyddwyd tir o'r perchennog gwreiddiol i'r dyroddwr bond;

(b) y CUT ar gyfer y ffurflen dreth yr hawliwyd rhyddhad rhag treth arni mewn perthynas â'r trafodiad pan drosglwyddwyd tir o'r dyroddwr bond i'r perchennog gwreiddiol; ac

(c) unrhyw ddogfen fel y'i darparwyd gan y Prif Gofrestrydd Tir sy'n cadarnhau bod y tir gwreiddiol wedi ei gofrestru yn enw'r perchennog gwreiddiol.

**Tystiolaeth ragnodedig at ddiben paragraff 18(5) o'r Atodlen**

**10.** Y dystiolaeth ragnodedig at ddiben paragraff 18(5) o'r Atodlen (tir amnewid nad yw yng Nghymru) yw—

(a) y CUT ar gyfer y ffurflen dreth yr hawliwyd rhyddhad rhag treth arni mewn perthynas â'r trafodiad pan drosglwyddwyd tir o'r perchennog gwreiddiol i'r dyroddwr bond;

(b) y CUT ar gyfer y ffurflen dreth yr hawliwyd rhyddhad rhag treth arni mewn perthynas â'r trafodiad pan drosglwyddwyd tir o'r dyroddwr bond i'r perchennog gwreiddiol;

(c) unrhyw ddogfen sy'n profi nad yw'r tir amnewid yng Nghymru a bod amodau 1 i 3 yn Rhan 3 o'r Atodlen wedi eu bodloni mewn perthynas â'r tir hwnnw; a

(d) unrhyw ddogfen fel y'i darparwyd gan y Prif Gofrestrydd Tir sy'n cadarnhau bod y tir gwreiddiol wedi ei gofrestru yn enw'r perchennog gwreiddiol.

*Mark Drakeford*
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid, un o Weinidogion Cymru
4 Ionawr 2018